



Adroddiad Blynyddol 2020/21

Cyng. Efed W Williams

Plaid Cymru

Ward Deiniolen



Pwrpas yr adroddiad yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn

[Gweler y ddolen](#) i wefan y Cyngor am fanylion cyfrifoldebau, pwyllgorau a chyrrff allanol rwy'n eu gwasanaethu, ynghyd a chofnod o bresenoldeb.

Prif Weithgareddau Etholaethol a Chymunedol

Hoffwn ddiolch i chi am eich cefnogaeth gyson ac am gydweithio gyda mi dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig yn ystod y cyfnod Covid. Dyma ddiweddariad i chi o fy mhrif weithgareddau dros y misoedd diwethaf yn y Ward.

- Cydlynu Grŵp Gwirfoddol Covid-19 Ward Deiniolen gan ymwneud ac ystod eang o ddyletswyddau. Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i'r holl wirfoddolwyr am eu gwaith caled.
- Aelod o'r Pwyllgor Lle Chi, sydd yn gweithio yn galed iawn i godi ymwybyddiaeth o'r ardal lechi lleol
- Aelod o'r Pwyllgor Caban Deiniolen sydd yn gwneud gwaith ar gael hwb yn lard yr Ysgol
- Gosodwyd diffibriliwr arall yn y Pentref - y pedwerydd erbyn hyn - yn ystod mis Awst
- Hoffwn ddiolch i Grŵp Mynydda Sir Caerloyw (Gloucestershire) am eu cyfraniad hael o £500 i Glwb Ieuencid Deiniolen
- Diolch hefyd i Mantell Gwynedd a Chyngor Gwynedd am bob cymorth yn ystod y cyfnod anodd.

Cyfarfodydd, Seminarau a Hyfforddiant y bu i mi eu mynychu

| Enw Teitl | Dyddiad Cwblhau |
|---|-----------------|
| Trefniadau Cwynion Ysgol – y gwahanol fathau o gwynion, pa Bolisi sy'n berthnasol a sut mae delio â nhw | 24/02/2021 |
| Lansio Rhaglen DementiaGO | 19/01/2021 |
| Troseddu Cyfundrefnol - Gangiau Cymunedol - Llinellau Sirol | 13/01/2021 |
| Hyfforddiant Microsoft Teams | 06/07/2020 |
| Datblygu Fframwaith Adfywio i Wynedd | 06/07/2020 |
| | |